**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **3 Rhagfyr 2024** |
| **Teitl:** | **Ad-drefnu Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn, Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Syr John Rhys** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I benderfynu a ddylid diwygio penderfyniad 3 Medi 2024 ac i barhau ar sail ymgynghoriad anffurfiol ar y cynigion i ad-drefnu Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn, Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Syr John Rhys ac ystyried eu dyfodol.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Cyflwyniad**

Trafododd y Cabinet y mater hwn ar 3/9/24:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=506&LLL=1

Dyma oedd penderfyniad y Cabinet:

**PENDERFYNIAD:**

"C50 - *Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa o 31 Awst 2025.*

*C51 - Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfihangel y Creuddyn o 31 Awst 2025 ymlaen.*

*C52 - Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Llangwyryfon o 31 Awst 2025.*

*C53 - Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Syr John Rhys o 31 Awst 2025."*

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, paratowyd papurau ymgynghori statudol.

Cychwynnodd ymgynghoriad ffurfiol Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Syr John Rhys ar 14/10/24, fydd yn dod i ben ar 3/12/2024. Cychwynnodd Ymgynghoriad ffurfiol Ysgol Llanfihangel y Creuddyn ar 5/11/24 sydd i ddod i ben ar 16/12/24.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Ar 19 Tachwedd 2024, derbyniodd yr Awdurdod sialens ffurfiol ynghylch y penderfyniad a wnaed ar 3/9/2024 i gynnal ymgynghoriad statudol gyda'r 31/8/25 fel dyddiad cau arfaethedig, a ystyriwyd nad oedd yn ymarferol, ac felly bod angen ailystyried y penderfyniad a wnaed ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen i'r Awdurdod ystyried a ddylid diwygio penderfyniad 3/9/2024 i wneud y broses bresennol yn un o gyfnod ymgynghori anffurfiol er mwyn casglu rhagor o wybodaeth, yn hytrach nag ymgynghoriad statudol.

Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol yn cael eu dadansoddi'n briodol, a bydd unrhyw argymhellion o ymgynghoriad statudol yn y dyfodol, ac asesiadau yn cael eu paratoi a'u cwblhau mewn dull cynhwysfawr.

Derbynnir nad yw'r amserlen gyfredol ar gyfer y broses ad-drefnu yn un y gellir ei chyflawni, ac felly ni ystyrir y gellir gweithredu penderfyniad 3/9/24.

Cynigir felly y dylid trin ymgynghoriad statudol presennol (Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Syr John Rhys o 14/10/2024 i 3/12/24 ac Ysgol Llanfihangel y Creuddyn o 5/11/24 i 16/12/24) fel ymgynghoriad anffurfiol ar ddyfodol yr ysgolion ac unrhyw ad-drefnu.

Yna bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad anffurfiol, bydd unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet maes o law.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, esboniwch pam.**

Mae Asesiad Statudol o Effaith Cymunedol a'r Gymraeg wedi'i gwblhau (drafft) ac mae Asesiad Effaith Integredig yr Awdurdod Lleol hefyd wedi'i ddrafftio, ond bydd y ddwy ddogfen ar gyfer pob ysgol yn cael ei diweddaru ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad anffurfiol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:** Amh
**Hirdymor:** Amh
**Cydweithio:** Amh
**Cynnwys:** Amh
**Atal:** Amh
**Integreiddio:** Amh

**Argymhelliad / Argymhellion:**

1. **Nodi na ellir gweithredu penderfyniad y Cabinet ar 3/9/24.**

2. **Cymeradwyo bod penderfyniad y Cabinet ar 3/9/24 sef penderfyniadau C50, C51, C52 a C53 yn cael eu diwygio fel a ganlyn:**

   **"bod y broses ymgynghori statudol i beidio â chynnal y ddarpariaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn, Ysgol Llangwyryfon**

**ac Ysgol Syr John Rhys o 31 Awst 2025", yn cael ei thrin fel ymgynghoriad anffurfiol ar ad-drefnu a dyfodol yr ysgolion.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

- **Nid yw peidio â chynnal yr ysgolion o 31 Awst 2025 yn opsiwn ac nid yw'r amserlen yn gyraeddadwy.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ffrwd Waith Is-adeiledd Addysg – 1 Chwefror 2024

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Gorfforaethol – 2022-2027
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig -2023/24 – 2026/27

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oes i Ddysgu

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Costau sy'n gysylltiedig â sialens gyfreithiol.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

- Methu â chadw at ofynion statudol
- Risg o dderbyn sialens gyfreithiol

**Goblygiadau staffio:**
Amh

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Amh

**Risg(au):**

- Peidio cadw at ofynion yr 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Gynaliadwy'
- Peidio cydymffurfio â gofynion statudol
- Sialens Gyfreithiol

**Pwerau Statudol:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Cyfansoddiad y Cyngor
Canllawiau – Y Cod Trefniadaeth Ysgolion – Canllawiau Llywodraeth Cymru – 011/2018

**Papurau Cefndir:**
Adroddiad y Cabinet 3/9/24

**Atodiadau:**
Amh

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes

**Swyddog Adrodd:**
Nia James, Rheolwr Corfforaethol: Adnoddau Dysgu

**Dyddiad:**
27/11/2024